



# Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Chanmoliaeth

## Enw a manylion cyswllt y Rheolydd Data

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Rheolydd Data ac mae wedi ymrwymo i warchod hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu â hwy trwy [dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) 0300 065 3000

## Pa wybodaeth fyddwn ni'n casglu amdanoch chi?

Byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol i'n galluogi i gydnabod ac ymateb i gwynion/canmoliaeth am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, ac i ymateb i geisiadau i hysbysu asesiadau ac ymchwiliadau a gynhelir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Mae'r mathau o wybodaeth bersonol y gallwn ei defnyddio (os dewiswch i'w rhoi inni) yn cynnwys:

- manylion personol fel enwau, cyfeiriadau (e-bost a phost), rhifau ffôn
- manylion teuluol, er enghraifft manylion perthynas agosaf
- manylion cyflogaeth (os y'u darperir)
- manylion ariannol, os bydd yr achos yn ymwneud â thalu am wasanaethau
- delweddau gweledol / recordiadau sain, er enghraifft os darperir neu os oes angen tystiolaeth ffotograffig, delweddau Teledu Cylch Cyfyng neu ffeiliau sain i hysbysu ymchwiliad i gŵyn
- manylion a gedwir mewn cofnod cwsmer, ble fo adrannau eraill o CNC yn cadw neu'n rheoli cofnodion
- cofnodion eraill sy'n bodoli eisoes sy'n ymwneud â'r gŵyn dan sylw

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn prosesu dosbarthiadau sensitive o wybodaeth (os darperir y rhain i gefnogi cwyn) all gynnwys:

- tarddiad hiliol ac ethnig
- troseddau (yn cynnwys troseddau honedig), achosion troseddol, canlyniadau a dedfrydau
- manylion ceisiadau tribiwnlys, cwynion, damweiniau, a digwyddiadau

## Sut gaiff eich gwybodaeth ei defnyddio?

Defnyddir eich gwybodaeth i ymateb i'ch ymholiad neu eich cwyn/canmoliaeth ac i wella'r gwasanaeth cwsmeriaid a ddarperir gan CNC ac i:

- wirio ac adrodd ar ba mor effeithiol y bu CNC a'n gwasanaethau
- sicrhau y defnyddir arian yn gywir i dalu am y gwasanaethau y mae'n eu darparu

- ymchwilio i gwynion, honiadau neu ddigwyddiadau
- sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio i ateb anghenion cwsmeriaid i'r dyfodol
- adolygu'r gwasanaeth a ddarperir i sicrhau ei fod yn gydnaws â'n polisiau a'n gweithdrefnau
- i hysbysu neu ymateb i asesiadau neu ymchwiliadau a gynhelir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

### **Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?**

- Pan fo testun y data wedi cydsynio i'w data personol gael ei brosesu neu wedi rhoi cydsyniad penodol i brosesu data personol categori arbennig.
- Mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (i fodloni ceisiadau'n unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

### **Pwy fydd yn derbyn eich gwybodaeth?**

#### Ar gyfer cwynion/canmoliaeth am wasanaethau a ddarperir gan CNC

Rydym angen eich cydsyniad ar gyfer casglu ac ystyried pob gwybodaeth berthnasol at ddibenion ymateb i ohebiaeth, penderfynu os dylid agor ymchwiliad, neu at ddibenion ymchwilio i'r achos yn unol â Pholisi Cwynion a Chanmoliaeth CNC. Gall hyn gynnwys gwybodaeth bersonol neu sensitif sy'n berthnasol i'r achos.

Rydym angen eich cydsyniad a'ch dealltwriaeth i'ch ffurflen/llythyr/e-bost cwyno, a'r holl ddeunydd a atodir iddo, gael eu datgelu'n llawn i'r unigolion neu'r timau yr ydych wedi cwyno amdanynt, oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, ac y gellir eu defnyddio ymhellach yn unol â thelerau Polisi Cwynion a Chanmoliaeth CNC (yn cynnwys cwynion sy'n ymwneud â mwy nag un darparwr gwasanaeth neu sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd wedi eu gosod ar gytundeb, os derbynnir cydsyniad pendant i rannu gwybodaeth).

Os ydych yn cwyno ar ran rhywun arall, bydd mynd ati i gwblhau'r ffurflen neu ysgrifennu ar eu rhan yn cadarnhau eu bod yn cydsynio i gwyn/canmoliaeth gael ei gyflwyno ar eu rhan ac i CNC gasglu ac ystyried yr holl gofnodion perthnasol at ddiben ymateb i ohebiaeth neu benderfynu os dylid agor ymchwiliad, neu at ddibenion ymchwilio eu cwyn yn unol â Pholisi Cwynion a Chanmoliaeth CNC. Rydym hefyd angen eu cydsyniad i'w gwybodaeth gael ei ddefnyddio ymhellach yn unol â thelerau Polisi Cwynion a Chanmoliaeth CNC (yn cynnwys cwynion sy'n ymwneud â mwy nag un darparwr gwasanaeth neu sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd wedi eu rhoi allan ar gytundeb os derbynnir cydsyniad pendant i rannu gwybodaeth), ac y byddwch, fel eu cynrychiolydd, yn gallu cael mynediad i'w gwybodaeth bersonol neu sensitif a gesglir at un o'r dibenion hyn.

#### Ar gyfer cwynion bod staff CNC wedi torri'r Cod Ymddygiad

Os ydym wedi derbyn cydsyniad, mae'n bosibl y bydd eich ffurflen gwyno neu eich gohebiaeth, a'r holl ddeunydd a atodir iddo (yn cynnwys eich enw), yn cael eu datgelu'n llawn i'r aelod o staff neu'r tîm yr ydych yn cwyno amdanynt, oni bai y nodwch gyfarwyddiadau eraill. Yn ogystal, caiff y wybodaeth yma ei datgelu fel arfer i gydweithwyr perthnasol (yn cynnwys Partner Cwynion CNC a Chydlynwyr Cwynion y Gyfarwyddiaeth).

### **Unrhyw drosglwyddiadau i wledydd eraill a'r trefniadau diogelu sy'n eu lle**

Ni chaiff y data ei drosglwyddo'r tu allan i'r UE oni bai bod angen y trosglwyddiad yma er

mwyn ymateb i gŵyn oddi wrth gynrychiolydd ac y gellir cyfiawnhau hyn trwy dderbyn y cydsyniad priodol.

### **Am ba hyd y cedwir eich gwybodaeth?**

Caiff y data personol sy'n ymwneud â'ch achos ei gadw'n unol ag amserlen gadw CNC (dim hirach na 3 blynedd ar gyfer cwynion a chanmoliaeth).

### **Beth yw eich hawliau unigol?**

Mae gennych hawl i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i brosesu eich gwybodaeth bersonol, i gywiro, i ddileu a chyfyngu eich gwybodaeth bersonol. Ymwelwch â'n [gwe-dudalennau Diogelu Data <https://cyfoethnaturiolcymru.sharepoint.com/en-gb/our-work/corporate/data-protection-and-access-to-information>](https://cyfoethnaturiolcymru.sharepoint.com/en-gb/our-work/corporate/data-protection-and-access-to-information) am fwy o wybodaeth ynghylch eich hawliau.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data CNC: -

E-bostiwrch – [dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Swyddog Diogelu Data  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Maes y Ffynnon  
Ffordd Penrhos  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 2DW

### **Diogelu eich gwybodaeth**

Cedwir eich data mewn adran mynediad cyfyngedig o System Rheoli Dogfennau CNC.

### **Sut i gwyno**

Os ydych yn anfodlon gyda'r modd y cafodd eich data personol ei brosesu gallwch, yn y lle cyntaf, gysylltu gyda Swyddog Diogelu Data CNC gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, yna mae gennych hawl ymgeisio'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

